



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2013 Rhif 1468 (Cy. 139)

2013 No. 1468 (W. 139)

**CYFLOGAETH A
HYFFORDDIANT, CYMRU**

**EMPLOYMENT AND
TRAINING, WALES**

Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau
Cwblhau Cymreig Amgen) 2013

The Apprenticeships (Alternative
Welsh Completion Conditions)
Regulations 2013

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau pan na fo person wedi ymrwymo i gytundeb prentisiaeth ond ei fod yn gweithio o dan drefniadau gweithio amgen, drwy bennu amodau cwblhau Cymreig amgen a fydd yn rhoi'r hawl iddo gael tystysgrif brentisiaeth. Maent yn gymwys mewn achosion pan fo person yn gweithio fel person hunangyflogedig; a phan fo person wedi ei ddiswyddo oherwydd bod y swydd wedi ei dileu, er mwyn bod y person hwnnw yn gallu cwblhau'r brentisiaeth cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad dileu'r swydd.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision for circumstances where a person has not entered into an apprenticeship agreement but is working under alternative working arrangements, by specifying the alternative Welsh completion conditions which will entitle them to receive an apprenticeship certificate. They apply in cases where a person works as a self employed person; and where a person has been dismissed by reason of redundancy, so that that person can complete the apprenticeship within 6 months of the date of the redundancy.

2013 Rhif 1468 (Cy.139)

**CYFLOGAETH A
HYFFORDDIANT, CYMRU**

**Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau
Cwblhau Cymreig Amgen) 2013**

Gwnaed 11 Mehefin 2013
Yn dod i rym 23 Mehefin 2013

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2(5) a 262(3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(1) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Yn unol ag adran 262(10) o'r Ddeddf honno, cafodd drafft o'r offeryn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013 a deuant i rym ar 23 Mehefin 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Yr amodau cwblhau Cymreig amgen

2. Yr amodau cwblhau Cymreig amgen yw'r amodau a bennir yn rheoliad 3 neu 4.

3. Dyma'r amodau—

- (a) bod person ("X") yn gweithio fel person hunangyflogedig mewn cysylltiad â fframwaith prentisiaeth Cymreig cydnabyddedig; a

(1) 2009 p. 22.

2013 No. 1468 (W. 139)

**EMPLOYMENT AND
TRAINING, WALES**

**The Apprenticeships (Alternative
Welsh Completion Conditions)
Regulations 2013**

Made 11 June 2013
Coming into force 23 June 2013

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 2(5) and 262(3) of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(1) make the following Regulations:

In accordance with section 262(10) of that Act, a draft of this instrument was laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Apprenticeships (Alternative Welsh Completion Conditions) Regulations 2013 and they come into force on 23 June 2013.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

The alternative Welsh completion conditions

2. The alternative Welsh completion conditions are the conditions specified in regulation 3 or 4.

3. The conditions are that—

- (a) a person ("X") works as a self-employed person in connection with a recognised Welsh apprenticeship framework; and

(1) 2009 c. 22.

- (b) bod X yn bodloni'r gofynion a bennir yn y fframwaith hwnnw at y diben o ddyroddi tystysgrif brentisiaeth.

4.—(1) Dyma'r amodau—

- (a) bod person (“Y”) wedi ymrwymo i gytundeb prentisiaeth mewn cysylltiad â fframwaith prentisiaeth Cymreig cydnabyddedig;
- (b) bod Y wedi dechrau ar gwrs hyfforddi ar gyfer y cymhwyster cymwyseddau a nodir yn y fframwaith hwnnw;
- (c) bod Y yn gweithio o dan y cytundeb prentisiaeth drwy gydol cyfnod cyntaf y cwrs;
- (d) bod Y wedi cael ei ddiswyddo o ganlyniad i ddileu swydd cyn cwblhau'r cwrs;
- (e) bod Y wedi cwblhau'r cwrs cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad diswyddiad o'r fath;
- (f) bod Y yn gweithio neu yn mynychu canolfan hyfforddiant galwedigaethol gydnabyddedig, mewn cysylltiad â'r fframwaith hwnnw drwy gydol ail gyfnod y cwrs; ac
- (g) bod Y yn bodloni'r gofynion a bennir yn y fframwaith hwnnw at y diben o ddyroddi tystysgrif brentisiaeth.

(2) Ym mharagraff (1)—

- (a) mae'r cyfeiriad at gyfnod cyntaf y cwrs yn gyfeiriad at y cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y dechreuodd y cwrs hyfforddi y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b) ac sy'n dod i ben ar y dyddiad diswyddo;
- (b) mae'r cyfeiriad at ail gyfnod y cwrs yn gyfeiriad at y cyfnod sy'n dechrau drannoeth y dyddiad diswyddo ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y cwblhawyd y cwrs hyfforddi.

- (b) X meets the requirements specified in that framework for the purpose of the issue of an apprenticeship certificate.

4.—(1) The conditions are that—

- (a) a person (“Y”) entered into an apprenticeship agreement in connection with a recognised Welsh apprenticeship framework;
- (b) Y started a course of training for the competencies qualification identified in that framework;
- (c) throughout the duration of the first phase of the course, Y was working under the apprenticeship agreement;
- (d) Y was dismissed by reason of redundancy before completing the course;
- (e) Y has completed the course within 6 months from the date of such dismissal;
- (f) throughout the duration of the second phase of the course, Y was working or attending a recognised vocational training centre, in connection with that framework; and
- (g) Y meets the requirements specified in that framework for the purpose of the issue of an apprenticeship certificate.

(2) In paragraph (1)—

- (a) the reference to the first phase of the course is to the period beginning on the day on which the course of training referred to in paragraph (1)(b) was begun and ending on the date of dismissal;
- (b) the reference to the second phase of the course is to the period beginning on the day following the date of dismissal and ending on the day on which the course of training was completed.

Jef Cuthbert

O dan awdurdod y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

11 Mehefin 2013

Under authority of the Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

11 June 2013

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2013 Rhif 1468 (Cy. 139)

**CYFLOGAETH A
HYFFORDDIANT, CYMRU**

Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau
Cwblhau Cymreig Amgen) 2013

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2013 No. 1468 (W. 139)

**EMPLOYMENT AND
TRAINING, WALES**

The Apprenticeships (Alternative
Welsh Completion Conditions)
Regulations 2013

£4.00

W1617/06/13

ON

ISBN 978-0-348-10760-9



9 780348 107609